CYNGOR BRO LLANLLWNI

Cynhaliwyd y cyfarfod yn Neuadd Gymunedol Llanllwni, nos Lun 12 Tachwedd 2018.

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod.
Llongyfarchwyd Alwena Mair Owen (merch y Clerc) ar ennill y wobr gyntaf ar yr Unawd Telyn, yr Alaw Werin a Cherdd Dant oed cynradd yn yr Wŷl Gerdd Dant ym Mlaenau Ffestiniog.

AGENDA
Roedd y Clerc wedi rhoi poster yn y Swyddfa Bost cyn y cyfarfod.

Y CAE CHWARAE:
Cadarnhawyd bod y maes chwarae a'r adnoddau wedi'u harchwilio'n fanwl yn ystod yr wythnosau diwethaf gan Eric Davies. Nid oedd damweiniau i'w cofnodi ar y cae chwarae.
Roedd y gwaith o hau hadau wedi ei gwblhau.
Nid oedd y Clerc wedi derbyn unrhyw wybodaeth ynglŷn ag archwilio'r adnoddau chwarae. Penderfynwyd y byddai'r Clerc a Linda Evans yn cysylltu am y diweddaraf cyn y cyfarfod nesaf. Roedd Dewi Davies wedi derbyn anfoneb gan Lyn Jones am dorri porfa yn y pentref yn ystod 2018, a phenderfynwyd yn unfrydol bod y Clerc yn talu'r anfoneb.

GWEFAN LLANLLWNI
Roedd adroddiad o gyfarfod mis Tachwedd ar y wefan; byddai'n ymddangos yn y rhifyn nesaf o 'Clonc' a 'Clecs Bro Cader.'

Y TŶ HERS
Roedd y Cynghorwyr wedi ymweld â'r safle. Nid oedd yr adeilad yn beryglus, ond roedd angen gwneud gwaith atgyweirio ar yr adeilad. Roedd angen i'r Clerc ddanfon llythyr yn nodi y byddai'r gwaith yn cael ei gwblhau yn ystod yr wythnosau nesaf. Penderfynwyd bod angen i'r Clerc hefyd ddanfon anfoneb am logi Tŷ Hers am y flwyddyn 01/04/2018 – 31/03/2019.

AWEL Y MYNYDD – BLWCH POSTIO
Roedd y blwch postio wedi diflannu o'r lleoliad yma; roedd y Clerc wedi derbyn cadarnhad y byddent yn edrych i mewn i'r mater lle yr oedd y blwch postio wedi mynd.

MELINAU GWYNT

Roedd Aled Vaughan wedi cysylltu â'r Clerc i gael mynychu cyfarfod. Penderfynwyd y byddai'r Clerc yn cysylltu am ddyddiad.

CINIO BLYNYDDOL
Penderfynwyd y byddai'r cinio blynyddol yn cael ei gynnal ar 18 Ionawr 2019.

TYLLAU YN YR HEWL
Byddai'r Clerc yn gweithredu.

Penderfynwyd cefnogi: Cylch Meithrin Llanllwni Eisteddfod Llanfihangel-ar - arth a'r plwyf.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a'u brwdfrydedd dros y plwyf gan ddymuno Nadolig Llawen i bawb. Bydd y cyfarfod nesaf yn Neuadd Gymunedol Llanllwni ar14 Ionawr 2019 am 8.00yh.